

CYFARFOD: **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

DYDDIAD: **11 CHWEFROR 2021**

TEITL: **RHAGLEN GYFALAF 2020/21 –
ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2020**

PWRPAS: **Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf**

GWEITHREDIAD: **Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet**

AELOD CABINET: **CYNGHORYDD IOAN THOMAS**

SWYDDOG CYSWLLT: **FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID**

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Rhaglen Gyfalaf 2020/21 - Adolygiad Diwedd Tachwedd 2020) i'r Cabinet ar 26 Ionawr 2021 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Taflen Penderfyniad Cabinet 26/01/2021

Adroddiad Cabinet 26/01/2021: Rhaglen Gyfalaf 2020/21 - Adolygiad Diwedd Tachwedd 2020

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	26 Ionawr 2021
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	10 Chwefror 2021

PWNC

Eitem 11:RHAGLEN CYFALAF 2020/21 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD
(SEFYLLFA 30 TACHWEDD 2020)

PENDERFYNIAD

- Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2020) o'r rhaglen gyfalaf.
- Cymeradwywyd yr ariannu addasedig a gyflwynwyd yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
 - o cynnydd o £2,000 mewn defnydd o fenthyca,
 - o cynnydd o £3,019,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
 - o dim newid mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
 - o cynnydd o £313,000 mewn defnydd o gyfraniadau referniw,
 - o dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
 - o lleihad o £14,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol) ac er mwyn caniatáu i'r cyfrifon terfynol ffurfiol gael eu cwblhau.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
